

# Mynediad y Gymuned at Ffermydd a Thir

Astudiaeth Achos Blaenau Gwent

Mannau Gwyrdd Gwydn

# sefydlu AGG

Mae Cynghrair y Gweithwyr Tir (LWA) a Shared Assets wedi cyfuno i gael hyd i ffyrdd i wireddu'r heriau a'r cyfleoedd o ran mynediad at dir ar gyfer newydd-ddyfodiaid a chymunedau lleol sydd â diddordeb mewn ffermio amaethecolegol fel rhan o brosiect Mannau Gwyrdd Gwydn. Diben y gyfres hon o astudiaethau achos yw dangos enghreifftiau o arfer dda sy'n bodoli ar hyn o bryd ymhlith grwpiau amrywiol yng Nghymru, yn ogystal ag egluro sut maent wedi ceisio trechu rhai o'r rhwystrau maent wedi dod ar eu traws ar hyd y daith, er mwyn ysbrydoli eraill sydd ar yr un trywydd efallai.

## Astudiaeth Achos Blaenau Gwent - Cyfuno Trosglwyddo Asedau Cymunedol, Tir a Thyfu Bwyd

Mae Cyngor Bwrdeistref Blaenau Gwent yn ne-ddwyrain Cymru wedi bod yn ystyried sut i ddefnyddio ei bolisi ar gyfer Trosglwyddo Asedau Cymunedol (TAC) i gefnogi prosiectau tir a thyfu bwyd dros y blynyddoedd diweddar. Mae'r sir yn berchen ar rai ffermydd, er nid oedd y swyddogion y bûm yn siarad gyda nhw'n gwybod yn union faint o ddaliadau tir amaethyddol oedd - mae adolygiad tir ar y gweill, ond gall cymryd amser i'w gwblhau. Ar hyn o bryd mae 104.5 erw'n cael eu prydlesu ar gyfer amaeth, ac mae 15.3 erw arall yn cael eu gosod fel rhandiroedd. Mae gan y cyngor Strategaeth Trosglwyddo Asedau Cymunedol ac mae'n gweithio gyda grwpiau lleol i hwyluso prosesau trosglwyddo asedau. Adeiladau a chaeau chwaraeon yw mwyafrif yr asedau a drosglwyddwyd hyd yma, yn hytrach na thir i dyfu bwyd. Yn sgil penodi swyddog newydd sy'n gweithio ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a benodwyd i ystyried bwyd cynaliadwy, mae cyfle a pharodrwydd i symleiddio ac ehangu proses TAC i sicrhau ei fod yn addas ar gyfer tir sy'n tyfu bwyd yn ogystal ag adeiladau. Drwy hyn, gall ategu datblygu strategaeth bwyd cynaliadwy trwy alluogi trosglwyddo tir ar gyfer mentrau tyfu bwyd cymunedol, lle mae diddordeb cynyddol ymhlith pobl leol.

Mae'r astudiaeth achos hon yn olrhain y gwaith hyd yn hyn ar y materion hyn, y rhwystrau a wynebwyd a'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

## Pwy oedd yn cyfrannu?

Hyd yma, mae proses TAC wedi cael eu rheoli o safbwynt y cyngor gan swyddog o'r Adran Ystadau, a gefnogwyd gan ac a oedd yn gweithio ochr yn ochr â chydweithwyr eraill o Gyfarwyddiaeth yr Amgylchedd ac Adfywio, a staff sefydliadau allanol oedd yn rhan o brosesau TAC. Ymhlith y rhain mae Tai Calon (darparwr tai cymdeithasol oedd yn gyfrifol am reoli llawer o stoc tai blaenorol y cyngor, ac sydd â daliadau tir sylweddol), yr elusen Growing Space (sy'n rhedeg Gerddi Terence, gardd gymunedol, gweithdy/stiwdio a chaffi ym Mrynmawr), a'r Grŵp Cymorth Trydydd Sector (grŵp sy'n cynnwys prif sefydliadau trydydd sector a chwaraeon sy'n cefnogi TAC ym Mlaenau Gwent). Mae aelodaeth y Grŵp Cymorth Trydydd Sector yn destun adolygiad parhaus, ac yn ddiweddar, mae Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol wedi dod yn aelod, yn rhannol oherwydd cydnabyddiaeth gynyddol o ran diddordeb pobl leol mewn tyfu bwyd. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus lleol yn noddi swyddog newydd sy'n gyfrifol am lunio Strategaeth Bwyd Cynaliadwy, dan ofal Tai Calon, ac sy'n cael ei gyllido trwy ffynonellau amrywiol, megis y cyngor, sydd hefyd yn rhan o'r gwaith yma.

## Beth oedd eu nodau?

Hyd yma, prif nod y Cyngor oedd cefnogi grwpiau cymunedol sy'n awyddus i fod yn gyfrifol am reoli/perchnogi asedau penodol trwy'r prosesau a amlinellir yn y Strategaeth TAC. Er hynny, gan ystyried profiadau anodd y grwpiau hyn ac eraill sydd wedi mynd at y Cyngor, bellach mae cydnabyddiaeth o'r angen i arfer dull mwy cydgysylltiedig, syml a hygyrch tuag at TAC, ac er mwyn i'r broses hon lwyddo ar gyfer tir yn ogystal ag adeiladu, i allu cefnogi mentrau tyfu bwyd lleol, a'r Strategaeth Bwyd Cynaliadwy sydd ar y gweill. Mae'n debyg y bydd hwn yn un o nodau craidd y Cyngor o safbwynt ei waith yn y dyfodol.

## Beth a gyflawnwyd?

Hyd yma, mae'r Cyngor wedi cefnogi cyfanswm o 46 o fentrau cymunedol i gwblhau prosesau TAC, ac o'r rhain, mae un - Gerddi Terence - wedi canolbwyntio ar dyfu bwyd. Mae'r Cyngor yn parhau i gynnig cefnogaeth i chwe grŵp arall yng nghanol proses TAC, ac mae dau o'r rhain yn bwriadu gweithio ym maes tyfu bwyd. Mae'r tair menter TAC sydd wedi eu cwblhau neu sydd dal ar y gweill ar hyn o bryd, sy'n gysylltiedig â thyfu bwyd, fel a ganlyn:

Gerddi Terence ym Mrynmawr, sy'n cael ei rhedeg gan yr elusen Growing Space. Gardd gymunedol oedd yn bodoli eisoes oedd hon, a ehangwyd i gynnwys twnnel plastig /man tyfu mwy, ynghyd â chaffi a seilwaith arall, i weithredu fel hwb er mwyn ymgysylltu â'r gymuned, ym maes gwirfoddoli ac i gynnig llwybrau i wasanaethau eraill. Y syniad oedd y byddai pobl efallai'n fwy agored i drafod problemau sydd ganddynt mewn meysydd bywyd eraill wrth arddio, neu dros baned o de, ac y gall hyn arwain at atgyfeiriadau at wasanaethau eraill, yn ogystal ag, yn y cyfeiriad arall, atgyfeiriadau gan ddarparwyr eraill oedd yn gallu gweld buddion pobl yn ymgysylltu â gweithgareddau awyr agored.





Barefoot Farm, Cwm, Glyn Ebwy - mae datblygiad y prosiect hwn dal ar y gweill, ac mae'n cael ei arwain gan fusnes newydd sydd wedi gorfod sefydlu ei hun fel cwmni, ac ar yr un pryd delio gyda phroses ymgeisio TAC y Cyngor a cheisio cael caniatâd cynllunio. Bydd statws cymeradwyo TAC yn ddibynnol ar dderbyn caniatâd cynllunio, a'r cyngor yn hysbysebu'r cynnig dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 oherwydd colli man agored cyhoeddus, ac wrth ystyried unrhyw gynrychiolaethau a ddaw i law.

Cwmni buddiant cymunedol a leolir yng Nghwmtyleri yw Pentref Tyleri . Mae ganddynt nifer o gynigion cyffrous ar y gweill, fydd yn cael eu hystyried ar gyfer TAC. Yn y lle cyntaf, maent wedi is-osod lle gan brosiect TAC arall, ac wedi sefydlu caffi cymunedol a man tyfu bach trwy ddefnyddio cyllid Cadw Cymru'n Daclus. Maent yn gweithio gyda'r Cyngor i gyflawni gwelliannau amgylcheddol bach ac mae'r caffi'n cael ei ddefnyddio fel man cyfarfod ar gyfer y gymuned leol, ac fel cyfrwng i ymgynghori ac ysgogi syniadau ar gyfer prosiectau'r dyfodol , fyddai'n gallu cynnwys: seddi yn yr awyr agored, mannau gwaith cymunedol, cyfoethogi bioamrywiaeth a chefnogi busnesau cymunedol. Mae'r grŵp wedi llwyddo i ddenu cyllid Kickstart i greu cyfleoedd gwaith a hyfforddiant, ac yn ddiweddar maent wedi ennill Gwobr y Gwasanaeth Cynghori ar Dir Cymunedolsy'n cael ei redeg gan Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol i gydnabod yr hyn a gyflawnwyd hyd yn hyn.





## Yr hyn na lwyddwyd i'w gyflawni?

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Blaenau reolaeth dda ar yr adeiladau sy'n eiddo iddynt, a all fod yn addas ar gyfer TAC. Mae'r awdurdod lleol yn wybodus o ran y tir sy'n eiddo iddo, ac mae'r rhan fwyaf ohono'n gofrestredig gan y Gofrestrfa Tir, ond mae'n llai ymwybodol ynghylch y defnydd presennol o fwyafrif y tir yma, neu yn wir, a oes mannau ohono sy'n addas ar gyfer tyfu bwyd. Mae adolygiad tir ar y gweill ar hyn y bryd, ond amcangyfrifir y gall cymryd blynyddoedd i'w gwblhau. Yn y tymor byr, mae'n annhebyg fod gan y Cyngor ddealltwriaeth lawn o'r tir sy'n addas ac sydd ar gael a pha rai o'r ardaloedd hyn all fod yn opsiwn o ran prosesau trosglwyddo, ac felly bydd yn rhaid dibynnu ar grwpiau cymunedol yn dod atynt, a delio gydag ymholiadau fesul cais unigol.

## Pa rwystrau oedd yn eu hwynebu?

Mae'r cyngor a grwpiau cymunedol wedi dod ar draws nifer o rwystrau wrth weithio trwy broses TAC. Gall agweddau biwrocratiaeth y broses, y costau cysylltiedig ac amserlen hirfaith fod yn anodd eu rheoli o safbwynt y ddwy ochr. Mae swyddogion y Cyngor wedi gweld aelodau'r gymuned, oedd yn frwdfrydig iawn ar y dechrau, yn colli eu brwdfrydedd, ar ôl dod yn rhan o broses gymhleth TAC. O safbwynt y Cyngor, mae diffyg capasiti o safbwynt staff ac adnoddau i gefnogi grwpiau sydd â diddordeb mewn perthynas ag agweddau ymarferol ar TAC, er mae'r cymorth helaeth sydd ar gael gan y trydydd sector i ymgeiswyr yn helpu lliniaru hyn.

Bellach does dim cyllideb i gyflawni unrhyw weithredoedd angenrheidiol o dan broses TAC. Byddai hyn hefyd yn cynnwys hysbysebion dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, neu ddelio gyda thir sydd efallai'n destun rheoliadau Meysydd Chwarae Cymru neu fel Tir Elusennol, a gall hyn oll ychwanegu amser ynghyd â chostau at y broses.
Nodwyd fod y gost o hysbysebu dan Ddeddf Llywodraeth Leol yn gost, sydd â'r potensial i fod yn sylweddol. Pan gytunodd y Cyngor o drosglwyddo cyfleusterau chwaraeon, cafodd y rhain eu hadnabod yn glir, a chawsant eu hysbysebu trwy un hysbyseb fawr yn y papur lleol. Ar gyfer hysbysebion tir llai, ad hoc, hwyrach y bydd y Cyngor yn ystyried grwpio safleoedd gyda'i gilydd mewn un hysbyseb. Hwyrach y bydd hyn yn golygu nifer o ddarnau tir i sicrhau ei fod yn gost-effeithiol, ac felly gall arwain at oedi o safbwynt cymeradwyaeth.

Gydag adnoddau cyfyngedig iawn, hwyrach y bydd y Cyngor yn llai tebygol o flaenoriaethu prosesau TAC ar gyfer darnau tir y gellir eu defnyddio i dyfu bwyd, oherwydd hwyrach nad oes digon o ddefnydd ar y rhain ar hyn o bryd, ac felly nid ydynt yn costio llawer i'r Cyngor o safbwynt gwaith cynnal a chadw. Hyd yma, cyfleusterau chwaraeon ac adeiladau eraill yw ffocws TAC ym Mlaenau Gwent a mannau eraill, gyda'r rhain yn golygu costau rhedeg uchel i'r Cyngor, a gwasanaeth sy'n bodoli eisoes y mae'r gymuned am ei gadw.

## Pa ymdrechion a wnaethpwyd i drechu'r rhwystrau hyn?

Roedd swyddog y cyngor wedi nod fel cael strategaeth TAC wedi bod yn fuddiol o ran codi ymwybyddiaeth am y dull hwn o reoli a throsglwyddo asedau. Mae fersiwn cyfredol y strategaeth TAC hefyd yn cynnwys dull o weithio syml ar gyfer darnau bach o dir - sy'n debygol o fod yn berthnasol i nifer o brosiectau tyfu bwyd bach.

Mewn perthynas â'r Strategaeth Bwyd Cynaliadwy, y gobaith yw y bydd yn mynd i'r afael â phroblemau cyflawni ymarferol ar gyfer pobl sydd â diddordeb er mwyn i ymgeiswyr potensial fod yn hollol ymwybodol o'r gofynion a'r broses y mae'n rhaid glynu wrthynt. Byddai hyn yn cynnwys llenwi cais TAC, mae'n rhaid i'r grŵp sy'n ymgeisio fod yn grŵp corfforedig, gwneud cais am ganiatâd cynllunio, delio gyda phryderon amgylcheddol ac ati. Yn ogystal â symleiddio proses TAC gyfredol, mae swyddog y cyngor yn awyddus i sicrhau fod unrhyw Strategaeth Bwyd Cynaliadwy yn y dyfodol yn cael ei lunio o'r cychwyn cyntaf gan ystyried yr elfennau ymarferol hyn, er mwyn osgoi problemau tebyg o ran cael mynediad at dir yn y misoedd a'r blynyddoedd sydd i ddod.

## Beth oedd wedi llwyddo?

Ar hyn o bryd mae prisiau tir ym Mlaenau Gwent yn weddol isel, sy'n golygu y gall polisi fod yn ysgogwr mwy dylanwadol o ran newid defnydd tir, na chost. Mae hwn yn gyfle felly o safbwynt perchnogaeth tir cymunedol, oherwydd yn aml gall polisïau ystyried ystod ehangach o fuddion cymdeithasol ac amgylcheddol, megis y rhai a gynigir gan ffermydd cymunedol, na'r agwedd ariannol yn unig o safbwynt rheoli tir a arferir gan lawer o gynghorau.
Mae'r broses ymgeisio a symleiddiwyd yn lleihau hyd y broses ar gyfer ymgeiswyr a'i nod yw ceisio sicrhau fod unrhyw grŵp newydd yn gorfforedig, yn deall y rhwymedigaethau dan sylw (gan gynnwys costau rhedeg), a bod ganddynt yswiriant atebolrwydd cyhoeddus.
Mae rhwydwaith da o sefydliadau cymorth trydydd sector sy'n cwrdd yn rheolaidd i drafod ceisiadau, mentrau newydd a'r cymorth sydd ei angen.

## A fyddai'n bosib dysgu gwersi ar gyfer grwpiau cymunedol a/neu gyrff cyhoeddus eraill?

Awgrymodd swyddog y cyngor y gall cynnwys darnau o dir gydag adeiladau TAC a chysylltu grwpiau newydd gyda safleoedd TAC sy'n bodoli eisoes, fod yn ffordd i gyflymu'r broses o gael mynediad at fwy o dir. Y syniad oedd y gall grwpiau cysylltu ag eraill yn eu hardal, sydd eisoes yn berchen ar dir neu adeiladau, er mwyn i dir ychwanegol fod yn estyniad o'r ardal sydd gan y grŵp gwreiddiol yn barod, fyddai'n symleiddio proses TAC o safbwynt y Cyngor.

## Cynlluniau'r dyfodol

Ynghyd â pharhau i gefnogi grwpiau ar ganol cais TAC ar hyn o bryd, fel y nodir uchod, mae gan swyddogion y cyngor ddiddordeb mewn cael hyd i ffyrdd i adolygu a symleiddio gweithdrefnau TAC ymhellach, ac i sicrhau eu bod yn gweithio ar gyfer darnau o dir yn ogystal ag adeiladau. Hefyd mae ganddynt ddiddordeb mewn gweithio gyda Thai Calon i greu mwy o hybiau'n debyg i Gerddi Terence, a seilir ar dyfu bwyd, ond sydd hefyd â chysylltiad â gwasanaethau eraill ac yn 'galon y pentref' i gymunedau.


### Mannau Gwyrdd Gwydn:

Mae Mannau Gwyrdd Gwydn yn brosiect partneriaeth gwerth £1.27m sy'n cael ei arwain gan Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol i dreialu systemau bwyd eraill sydd wedi'u hail-leoleiddio gan ddefnyddio cymunedau a'u mannau gwyrdd fel sbardun ar gyfer newid ledled Cymru tan fis Mehefin 2023.
Cyllidwyd y prosiect hwn drwy gynllun Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru -Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020, a ariennir gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.